Beibl i bawb o bobl y byd

Dyfalbarhad / gweledigaeth

Thomas Charles: 1755–1814

O edrych yn ôl ar fy mywyd i, Thomas Charles, y dylanwad mwyaf arna i oedd Daniel Rowlands. Deunaw oed oeddwn i. Yn yr eglwys roeddwn i wedi cael fy magu. Hi oedd eglwys swyddogol y wlad. Bob Sul roedden ni'n mynd drwy'r gwasanaeth yn y Boreol Weddi a'r Hwyrol Weddi. Ond roedd gwrando ar Daniel Rowlands yn wahanol iawn. Un o'r Methodistiaid oedd Rowlands. Roedd o'n pregethu'n wahanol i'r offeiriaid yn yr eglwys. Roedd y bregeth glywais i yn bregeth mor berthnasol. Roedd o fel petai o'n siarad efo mi, am fy nghyflwr i.

Mi fues i'n pendroni llawer am yr hyn ddywedodd Rowlands. Cefais fy mhenodi'n giwrad yn Llanymawddwy, dim ymhell o'r Bala. Byr iawn oedd f'arhosiad yno – dim ond tri mis. Roedd pregethu Rowlands wedi chwyldroi fy mywyd. Doedd dim amdani ond ymuno efo'r Methodistiaid. A dyna ddigwyddodd. Wedyn doedd yna ddim troi'n ôl.

Pan oeddwn i'n fachgen bach yn Sanclêr, lle ces i fy ngeni a'm magu, roeddwn wedi clywed llawer am ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror. Roeddwn i'n gwybod am y gwaith da roedden nhw'n ei wneud. Ar ôl i mi symud i fyw i'r Bala, fe benderfynais i ailgychwyn y dull yma o ddysgu'r bobl i ddarllen. Mi fuasech chi'n synnu faint o oedolion oedd yn methu darllen. Dyma'r dull wnes i ei ddilyn. Hyfforddi gwŷr ifanc yn yr ardal, eu hyfforddi i ddarllen y Beibl ac wedyn eu hanfon i bentrefi cyfagos i ddysgu'r trigolion. Wedyn fe fydden nhw'n symud ymlaen i bentref arall i agor ysgol. Ar y dechrau, ysgolion min nos ar ddyddiau gwaith oedd y rhain. Ond, o dipyn i beth, fe gawson nhw eu cynnal ar bnawniau Sul. Cofiwch, mi fuodd yna gryn brotestio am hyn. Pobl yn dweud na ddylen ni wneud unrhyw waith ar y Sul, dim ond addoli!

Beth bynnag, mi fuodd yr ysgolion ar y Sul yn llwyddiannus iawn. A dweud y gwir, dyma ddechrau'r Ysgol Sul yng Nghymru. Fel roedd yr ysgolion hyn yn cynyddu, mi roedd yna broblem arall yn ein hwynebu. Prinder Beiblau a phrinder llyfrau Cymraeg eraill. Mi es i ati i ysgrifennu llyfrau oedd yn addas ar gyfer plant ac am

chwe blynedd mi fûm i wrthi yn paratoi'r *Geiriadur Ysgrythurol*. Mi lwyddais i hefyd i gael deng mil o Feiblau a dwy fil o gopïau o'r Testament Newydd i'w dosbarthu yma ac acw.

Rwy'n cofio un noson trafod efo rhai o'm ffrindiau a dyna fi'n cael syniad, "Beth," meddwn i, "am gael cymanfa i'r Ysgolion Sul? Gwahodd aelodau o'r gwahanol Ysgolion Sul i ddod at ei gilydd i adrodd rhannau o'r Ysgrythur ar dafod leferydd ac wedyn cael rhywun i'w holi." Cyn pen dim amser roedd y cymanfaoedd Ysgolion Sul yma'n boblogaidd iawn.

Ond o edrych yn ôl ar fy mywyd, mi fuaswn i'n hoffi cael un peth arall. Mi fyddwn i'n mynd i Lundain yn gyson. Pan oeddwn i yno ym 1804 mi ddaeth criw ohonom ni at ein gilydd a phenderfynu sefydlu cymdeithas newydd er mwyn ceisio sicrhau Beibl i bawb. Nid Beibl i bawb yng Nghymru, ond i bawb yn y byd i gyd. Dyma sefydlu "Cymdeithas y Beibl". Fel y gwyddoch chi, arwyddair y Gymdeithas ydi, "Beibl i bawb o bobl y byd i gyd". Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael bod yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas hon.

"Y mae dy air yn llusern i'm troed, ac yn oleuni i'm llwybr."

Salm 119:105

Diolch i Ti, O Dad,
am bobl fel Thomas Charles
a fu'n llafurio'n galed i gael
Beibl i bobl Cymru. Nid gwaith hawdd
oedd hi yn y dyddiau hynny.
Ond mi ddaliodd ati drwy gydol ei oes.
Diolch amdano ac am bobl debyg iddo.
Amen.

Oes yna le i'r Ysgol Sul heddiw?
Pa newidiadau fuasech chi'n hoffi eu gweld yn hanes yr Ysgolion Sul y dyddiau hyn?

Thomas Charles: 1755–1814